Cofnodion Cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATGLYGU** a gynlaiwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell

Ddydd Mercher, 15 Mai 2024.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Rhodri Davies (Cadeirydd) Cynghorwyr, Marc Davies, Meirion Davies, Ifan Davies, Raymond Evans, Rhodri Evans, Hugh Hughes, Ceris Jones, Gareth Lloyd, Chris James, Sian Maehrlein, Mark Strong a Carl Worrall

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd Alun Willams

Y swyddogion a oedd yn bresennol: Mr. Russell Hughes-Pickering – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio, Dr Sarah Groves-Phillips- Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cynllunio, Economi ac Adfywio, Mrs Catrin Newbold – Rheolwr Gwasanaeth, Rheoli Datblyg, Mr Jonathan Eirug- Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu - Gogledd, Mrs Sian Holder- Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu - De, Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu - De, Ms Elin Prysor, Swyddog Monitro, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaeth– Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Dana Jones, Swyddog Democrataidd a Safonau

(10:00am-1:25pm)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorydd Gethin Davies am ei anallu i fynychu'r cyfarfod.

Nododd y Cynghorwyr Rhodri Evans a Chris James y byddent yn gadael y cyarfod yn gynnar oherwydd dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

2 Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu

Datgelodd y Cynghorydd Ceris Jones fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarn mewn perthynas â Chais A230293.

Datgelodd Mrs Catrin Newbold, – Rheolwr Gwasanaeth, Rheoli Datblygu fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarn mewn perthynas â Chais A200869.

3 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2024 a 21 Mawrth 2024

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2024 a 21 Mawrth 2024 yn gywir.

4 Matters yn codi

Dim.

5 Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor

Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio ynghylch y ceisiadau cynllunio canlynol a ystyriwyd mewn cyfarfodydd blaenorol ac a oedd angen ystyriaeth bellach gan y Pwyllgor:-

A220738 Annedd marchnad agored arfaethedig a fydd yn cynnwys mynediad i gerbydau, Pencoed, Pentre'r Bryn, Llandysul

I **GYMERADWYO**'r cais fel annedd fforddiadwy yn amodol ar Rwymedigaeth Adran 106.

A230293 Codi Annedd Menter Wledig (TAN6)a Sied, tir gerllaw Maespwll, Talgarreg, Llandysul

GOHIRIO gwneud penderfyniad ar y cais yn unol â gweithdrefnau gweithredu'r pwyllgor rhif 2, (Rhesymau er gwybodaeth) a rhif 4 (Gwybodaeth cynllunio newydd a ddaeth i sylw'r aelodau neu swyddogion cynllunio yn dilyn cyhoeddi agenda ac adroddiadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu) o'r broses ohirio ar gyfer ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.

---

6 Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu
Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio ynghylch ceisiadau cynllunio statudol, awdurdod lleol, hysbysebu a datblygu:-

Anerchodd Mrs Ellyw Jenkins (Ymgeisydd) y Pwyllgor yn unol â'r gweithdrefnau gweithredol ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

A160043 Adeiladu 22 annedd a gwaith cysylltiedig. Tir gerllaw Gellimanwydd, Talybont.

GOHIRIO gwneud penderfyniad ar y cais am gyfnod o chwech mis er mwyn i'r gwasanaeth dderbyn ymateb gan CNC ar yr Asesiad Canlyniad Llifogydd, gan awdurdodi'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio i GYMERADWYO'r cais os yw'r adroddiad yn ddigonol, neu ei WRTHOD os nad yw'n ddigonol.

Anerchodd Mrs Caryl Alban (Ymgeisydd) y Pwyllgor yn unol â'r gweithdrefnau gweithredol ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

A200869 Adeiladu annedd a garej domestig cysylltiedig ynghyd ag adeilad amaethyddol, safle gerllaw Glyndewi, Bwlchygroes

GWRTHOD y cais am y rhesymau canlynol:
1. Byddai'r cais yn arwain at annedd marchnad agored a sied mewn lleoliad arall, lleoliad anghynaladwy sy'n groes i Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040,

Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006) a'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, polisïau S01 a S04.
2. Os caiff ei ganiatâi, bydd y cais yn tanseilio'r gallu i gyflenwi strategaeth dai'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, Polisïau S01 a S04; a
3. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn niweidiol i gymeriad a golwg gwledig yr ardal o gwmpas, yn groes i'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, polisïau DM06 a DM17.

Anerchodd Mr Maldwyn Davies (Ymgeisydd) y Pwyllgor yn unol â'r gweithdrefnau gweithredol ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

A230718 Annedd newydd arfaethedig a gwaith cysylltiedig gan gynnwys gosod offer trin carthion a thrac mynediad o gerrig. Abermarlais, Llwyncelyn, Aberaeron

GOHIRIO gwneud penderfyniad ar y cais er mwyn trafod cynllun yr annedd newydd arfaethedig gyda'r ymgeisydd, gan awdurdodi'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio i GYMERADWYO'r cais os caiff ei gytuno.

A230860 Datblygiad arfaethedig o ddefnydd B1, B2 a B8, ynghyd â gwelliannau o ran mynediad. Tir gerllaw Gwili Jones a'i Feibion, Maesyfelin, Llanbedr Pont Steffan.

CYMERADWYO'r cais yn ddibynnol ar amodau

A230907 Gosod paneli solar ar y llawr a'r gwaith sy'n gysylltiedig â hynny, Qinetiq, Safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Heol Pennar, Aberteifi.

CYMERADWYO'r cais yn ddibynnol ar amodau

Anerchodd Mr Ian Bunton (Ymgeisydd) y Pwyllgor yn unol â'r gweithdrefnau gweithredol ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

A240140 Newid y defnydd o C3 i C4 fel y gellir defnyddio'r eiddo fel tŷ chwech ystafell wely aml-feddiannaeth. Mae'r eiddo eisoes wedi'i adnewyddu i gydymffurfio â safonau Tai Aml-feddiannaeth y Cyngor 2019. 9 Teras Penglais, Ffordd Penglais, Aberystwyth.

CYMERADWYO'r cais yn ddibynnol ar amodau

---

7 Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o da awdurdod dirprwyedig y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Economi ac Adfywio:-

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o geisiadau cynllunio yr ymdriniwyd â hwy yn Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio.

8 Apeliadau

CYTUNWYD i nodi'r apeliadau a'r galw i mewn a dderbyniwyd.

Gofynnodd Cynghorydd Gareth Lloyd i Aelodau dderbyn sesiwn briffio ar nifer yr apeliadau a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Lleol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, er mwyn cymharu ffigyrau.

9 Unrhyw fater arall

Nododd y Cadeirydd taw hyn fydd ei gyfarfod olaf fel Cadeirydd, a diolchodd i'r holl Gynghorwyr a Swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod ei dymor. Mewn ymateb, diolchodd Cynghorydd Ifan Davies y darpar-Gadeirydd y Cynghorydd Rhodri Davies am ei gadeiryddiaeth yn ystod ei dymor.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2024

Cadeirydd:-_____

Dyddiad:_____